# Datganiad Blynyddol 2022/2023

## Proffil y Darparwr

### Gwybodaeth Darparwr i'w chyhoeddi

Mae'r wybodaeth ganlynol yn ymwneud â gwybodaeth a oedd gan AGC am y darparwr hwn a'i wasanaethau cysylltiedig ar 31 Mawrth 2023.

Mae'r adran hon wedi cael ei llenwi i chi. Nid oes camau gweithredu i'w cwblhau. Caiff y wybodaeth hon a ddangosir ei chynnwys yn y Datganiad Blynyddol cyhoeddedig.

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr: | Llesiant Delta Wellbeing |
| Roedd y darparwr wedi'i gofrestru ar: | 01/03/2021 |
| Mae'r canlynol yn rhestru amodau'r darparwr: | Nid oes unrhyw amodau a osodwyd yn gysylltiedig â'r darparwr hwn |
| Y gwasanaethau rheoleiddiedig a ddarparwyd gan y darparwr hwn oedd: | Llesiant Delta Wellbeing CONNECT |

**Llesiant Delta Wellbeing CONNECT**

| | |
|---|---|
| Math o wasanaeth | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Math o Ofal | Dim |
| Dyddiad Cymeradwyo | 01/03/2021 |
| Unigolyn/Unigolion Cyfrifol | Samantha Watkins |
| Rheolwyr | Sarah Vaughan |
| Ardal Partneriaeth | Gorllewin Cymru |
| Amodau Gwasanaeth | Nid oes unrhyw amodau yn gysylltiedig â'r gwasana eth hwn |

### Hyfforddiant a Chynllunio Gweithlu

| | |
|---|---|
| Disgrifiwch y trefniadau a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer nodi, cynllunio a diwallu anghenion hyfforddiant y staff a gaiff eu cyflogi gan y darparwr gwasanaeth | Mae gennym gynllun hyfforddiant sy'n dechrau gydag ymsefydlu ac yn parhau trwy gydol cyflogaeth unigolyn. Caiff ei adolygu'n fly nyddol i sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Mae staff yn cael cyfarf odydd goruchwylio neu lesiant misol lle gallant drafod unrhyw ang henion hyfforddiant ychwanegol. Nodir hyfforddiant hefyd drwy gyf arfodydd tîm, adolygiadau arfer gorau ac adborth cwsmeriaid. Tre fnir hyfforddiant a chaiff ei effeithiolrwydd ei wirio gan ein rheolwyr a'n swyddogion hyfforddiant, a thrwy gwestiwn penodol yn yr arol wg staff blynyddol. |
| Disgrifiwch y trefniadau a oedd ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer recriwtio a chadw'r staff a gaiff eu cyflogi gan y darparwr gwasanaeth | Rydym wedi gwerthuso proffiliau swyddi sy'n diwallu anghenion ei n gweithgareddau rheoledig. Rhoddir hysbysebion swyddi ar ein g wefan, cyfryngau cymdeithasol, tudalennau swyddi Cyngor Sir Gâ r ac Indeed. Mae gennym broses benodol i reolwyr ar gyfer llunio rhestr fer a chyfweliadau, a chynigir y swydd i'r ymgeisydd â'r sgô r uchaf. Wrth gynnig y swydd, cwblheir gwiriadau hawl i weithio ga n gynnwys y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DSB) a geirda cy n trefnu dyddiad cychwyn a rhaglen ymsefydlu. Trosiant staff ar g yfer 22/23 oedd 11.31%. |

## Proffil Gwasanaeth

### Manylion y Gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Enw'r Gwasanaeth | Llesiant Delta Wellbeing CONNECT |

| | |
|---|---|
| Rhif ffôn | 03003332222 |
| Beth yw'r brif iaith/ieithoedd a ddefnyddir i ddarparu eich gwasanaeth? | Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg |

| | |
|---|---|
| Ieithoedd eraill a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth | Dim |

## Darpariaeth Gwasanaeth

### Pobl a Gefnogir

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y bobl y gwnaeth y gwasanaeth ddarparu gofal a chymorth iddynt yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf | 117 |

### Ffioedd a Godir

| | |
|---|---|
| Isafswm y gyfradd fesul awr a oedd yn daladwy dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | 27.11 |
| Uchafswm y gyfradd fesul awr a oedd yn daladwy dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | 27.11 |

### Cwynion

| | |
|---|---|
| Beth oedd cyfanswm y cwynion ffurfiol a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | 0 |
| Nifer y cwynion gweithredol sydd heb eu penderfynu | 0 |
| Nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau | 0 |
| Nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau'n rhannol | 0 |
| Nifer y cwynion na chawsant eu cadarnhau | 0 |
| Pa drefniadau a wnaed ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r modd y cafodd y gwasanaeth ei redeg yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf? | Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau rheolaidd â defnydd wyr gwasanaeth a staff, o dan Reoliad 73, i ymgynghori ynghylch y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Rydym hefyd yn cynnal arolygon blynyddol o gwsmeriaid, gofalwyr, rhanddeiliaid a staff. R ydym wedi newid y ffordd rydym yn cynnal yr arolygon hyn, yn sgil dysgu o flynyddoedd blaenorol, gyda'r nod o wella adborth. Rydy m yn falch o ddweud bod 97.9% o'n cwsmeriaid wedi disgrifio proff esiynoldeb, golwg ac ymddygiad staff yn dda neu'n ardderchog. P an ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo bod y staff yn darparu eu gofal a'u cymorth gyda hyder, proffesiynoldeb, urddas a pharch, dywedodd 100% o'r ymatebwyr 'oeddent'. Roedd yr adborth gan ein staff yn dangos bod 75% o'r staff yn fodlon yn eu swydd, bod 75% ohonynt yn hapus gyda faint o hyfforddiant y maent yn ei ga el, a doedd neb yn dweud nad oedd modd rheoli eu llwyth gwaith. Fel rhan o'n harolwg rhanddeiliaid proffesiynol, rydym yn falch o a drodd bod 100% o randdeiliaid yn dweud bod proffesiynoldeb ein staff yn dda neu'n ardderchog. |

### Cyfathrebu â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

| Nodwch unrhyw ddulliau cyfathrebu nad ydynt yn rhai llafar a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth | |
|---|---|
| System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS) | Na |
| Triniaeth ac Addysg Plant sydd ag Awtistiaeth ac Anabledd Cyfathrebu Cysylltiedig (TEACCH) | Na |
| Makaton | Na |
| Iaith Arwyddion Prydain (BSL) | Na |
| Arall | Na |

### Datganiad Cydymffurfio

Mae'n rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol baratoi'r datganiad cydymffurfio.

Mae AGC wedi cyhoeddi canllawiau ar gwblhau'r adolygiad o ansawdd y gofal sy'n cynnwys cyngor ar yr hyn y gellid ei gynnwys yn y datganiad cydymffurfio.

Trefnwch eich datganiad cydymffurfio'n unol â'r pedwar maes llesiant isod.

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn teimlo bod pobl yn gwrando ar eu barn, bod ganddynt ddewis o ran eu gofal a'u cymorth a bod cyfleoedd ar gael iddynt. | Bydd Swyddogion Llesiant Cymunedol yn casglu gwybodaeth briodol a chywir am amgylchiadau cwsmer, gan ddefnyddio blaengarwch ym mhob achos a sicrhau bod cyfeirio ac atgyfeirio'n digwydd i wasanaethau priodol yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant Gwasanaethau Cymdeithasol ac arfer gorau cysylltiedig. Bydd Swyddogion Llesiant Cymunedol yn cynnal yr asesiad cychwynnol i sicrhau bod gan unigolion hŷn a bregus lais o ran sut caiff gwasanaethau eu darparu, fel bod ganddynt cymaint o reolaeth ag sy'n bosibl dros eu bywydau eu hunain. Hefyd byddant yn sicrhau bod gofalwyr a'u hanghenion yn cael eu nodi'n glir, bod cleientiaid yn cael cynnig asesiad o'u hanghenion eu hunain, a'u bod yn cael eu cyfeirio'n briodol at wasanaethau a all eu cefnogi â hyn. Mae defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn galwadau rhagweithiol i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a bod eu lleisiau yn cael eu clywed. Dyma gyfle i gael sgwrs am 'beth sy'n bwysig' er mwyn adolygu'r cynlluniau darparu gwasanaethau presennol i sicrhau nad yw newidiadau o ran anghenion a dymuniadau yn cael eu colli. Cyn i'r ymweliad cyntaf ddechrau, bydd Ymatebwyr Llesiant Cymunedol yn ymweld â'r defnyddwyr gwasanaeth, naill ai yn eu cartrefi eu hunain neu mewn ysbytai, i gydgynhyrchu cynllun gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a fydd yn cael ei lofnodi a'i gytuno gan y defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r cynllun hwn yn rhoi trosolwg i ni o'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn, fel bod gennym ddealltwriaeth o'i anghenion unigol ac fel ein bod yn gallu cynnig cefnogaeth neu gymorth pellach, h.y. cyfeirio neu os yw'n briodol, cyfleu unrhyw bryderon neu broblemau yn ôl i'r tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth at ddibenion brysbennu, e.e. gwneud atgyfeiriadau, trefnu adolygiadau a monitro cynnydd. Bydd y cynlluniau hyn yn croesawu'r ddarpariaeth bresennol yn y gymuned ym mhob ardal, yn ogystal â darparu llwybrau uniongyrchol i'r ymyriadau penodol a nodwyd fel sbardunau penodol ar gyfer y grŵp hwn, e.e. unigrwydd, codymau a straen gofalwyr. Rhoddir arolygon i unigolion eu cwblhau cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r Gwasanaeth Ymatebwyr, fel rhan o'u pecyn gwybodaeth manwl. Mae'r tîm yn cymryd amser i eistedd gyda'r cwsmer i egluro cynnwys y pecyn er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn deall y gwasanaeth a sut y gall hyn fod o fudd iddynt, fel bod ganddynt ddigon o wybodaeth ac amser i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch sut y gellir cyflawni eu nodau tymor hir. Yn olaf, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau bob dau fis i glywed barn ac adborth y defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r adborth hwn yn werthfawr ar gyfer gwelliannau a datblygiadau pellach. |

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn hapus ac yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd, eu datblygiad a'u llesiant cyffredinol yn barhaus. Ar gyfer plant, bydd hyn hefyd yn cynnwys datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol. | Mae'r cymorth cofleidiol rydym yn ei ddarparu i ddefnyddwyr gwasanaeth yn ein helpu i ddeall sefyllfa pob unigolyn o ran cyflawni ei nodau personol, yn ogystal â pha gymorth pellach - yn ymarferol neu'n emosiynol - y gall fod ei angen arno i gyflawni ei nodau yn annibynnol pan fydd wedi'i ryddhau o'r gwasanaeth.<br>Mae'r gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn yr un canllawiau a rheoliadau o dan ein gwasanaeth rheoledig ond mae'n darparu cymorth i bobl agored i niwed drwy sicrhau, lle bo'n briodol, y caiff pobl eu cefnogi i ddychwelyd adref o'r ysbyty i aros am asesiad llawn gyda'r lefel gywir o ofal. Mae Llesiant Delta yn cydweithio ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol, drwy Dîm Amlddisgyblaeth Canolradd, sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol, tîm ymateb acíwt, meddygon teulu, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion a thimau ailalluogi, i sicrhau bod y claf yn cael pecyn cofleidiol llawn, wedi'i deilwra i'w anghenion, ar ôl ei ryddhau. Mae ein gwasanaeth pontio hefyd yn rhoi cymorth pan mae'r trefniadau o ran gofal wedi methu, naill ai gan aelod o'r teulu neu gan ddarparwr arall a reoleiddir nad yw'n gallu cyflawni ei ymrwymiadau gofal, yn aml heb fawr o rybudd. Rydym yn ystyried yr agwedd hon ar ein gwasanaeth yn hanfodol o ran cynnal diogelwch y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau pan fyddant mewn argyfwng. Mae'r gwasanaeth hwn yn aml yn cael ei ddefnyddio y tu allan i oriau swyddfa arferol. Bydd yr ymyrraeth gynnar hon yn rhoi'r cyfle gorau posibl i ddinasyddion agored i niwed adennill eu hannibyniaeth a bod yn llai dibynnol ar wasanaethau statudol hirdymor os ydynt yn aros yn y gymuned neu'r ysbyty am becyn gofal a chymorth heb y lefelau cywir o gymorth ar waith. Mae egwyddorion cydraddoldeb a pharch ar y ddwy ochr yn allweddol er mwyn cyfleu ymdeimlad personol o hunaniaeth a gwerth, gan ddangos bod unigolion yn gallu cael llais a bod pobl yn gwrando arnynt.<br>I gefnogi hyn, mae'n bwysig sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o elfen gofal personol eu cynllun darparu gwasanaethau personol i adlewyrchu sut maent am i'w hanghenion gael eu diwallu os bydd damwain, gan bennu eu nodau unigol i gyflawni lefel bersonol o annibyniaeth. Caiff hyn ei adolygu'n aml fel y gellir newid y cynllun darparu gwasanaethau i adlewyrchu unrhyw newidiadau.<br>Lle bo'n bosibl, a chyda chytundeb y defnyddiwr gwasanaeth, bydd y teulu a/neu gynrychiolydd yn cael eu cynnwys i sicrhau bod perthnasoedd a chyfathrebu da yn cael eu cynnal i gefnogi iechyd, datblygiad a llesiant parhaus unigolion. |

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae pobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. | Er mwyn sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain ac yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulu stod, rydym yn sicrhau bod yr holl staff, fel rhan o'u cyfnod sefy dlu, yn cael hyfforddiant diogelu cadarn. Mae hyn yn cynnwys s icrhau bod yr holl staff yn deall eu cyfrifoldebau cyfreithiol a phr offesiynol mewn perthynas â hyn ac egwyddorion craidd diogel u. Yna caiff hyn ei atgyfnerthu fel rhan o'u goruchwyliaeth reola idd a chaiff unrhyw fylchau o ran hyfforddiant eu nodi ac ymdrin nir â nhw'n gyflym. Mae'r holl staff yn y gwasanaeth wedi cael h yfforddiant diogelu yn y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal â hyn, mae'r staff hefyd wedi cael hyfforddiant penodol mewn meysyd d eraill lle byddai angen ystyried diogelu, fel ymwybyddiaeth o i echyd meddwl, ymwybyddiaeth o ddementia a thrais yn erbyn m enywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) . Er m wyn cefnogi staff wrth ddelio â'r mathau hyn o sefyllfaoedd, ryd ym hefyd wedi sicrhau bod yr holl staff wedi mynychu hyfforddia nt gwytnwch personol sy'n canolbwyntio ar sut y gall staff roi eu strategaethau ymdopi eu hunain ar waith wrth wynebu sefyllfao edd anodd neu heriol.<br>Mae ymatebwyr cymunedol a'u rheolwyr yn deall ble y dylent roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu ac maent wedi meithrin pe rthynas waith gadarnhaol gyda'r timau diogelu a gwaith cymdeit hasol perthnasol. Mae adegau, oherwydd natur frys ein gwasan aeth, pan mae'r staff yn mynd i sefyllfa lle mae angen ymyrraet h ddiogelu frys. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r tîm yn gwybod pwy i gysylltu â nhw, waeth beth fo'r amser o'r dydd neu'r nos, gan fod ganddynt fynediad uniongyrchol i'r gwasanaeth Gwybo daeth, Cyngor a Chymorth a ddarperir gan Llesiant Delta. Os c yflwynir unrhyw bryderon diogelu y tu allan i oriau swyddfa arfer ol, bydd aelodau staff yn cysylltu â'r swyddog dyletswydd ar gyf er gofal cymdeithasol i oedolion y tu allan i oriau, sydd hefyd yn cael ei reoli a'i ddarparu gan Llesiant Delta.<br>Mae protocolau cadarn ar waith i ddilyn pryderon diogelu gyda l linellau adrodd sy'n hawdd ac yn syml iawn, er mwyn osgoi oedi a sicrhau y rhoddir gwybod am unrhyw bryderon diogelu yn gyfl ym. Mae diogelu yn cael ei hyrwyddo a'i gyflwyno i staff newydd yng nghyfnod sefydlu'r rhaglen, sy'n ennyn lefel o ymwybyddia eth ar ddechrau eu cyflogaeth gyda Llesiant Delta. Yn ystod yr hyfforddiant sefydlu corfforaethol, bydd aelodau newydd o staff yn cael cyfle i eistedd gyda'r tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymo rth i gael dealltwriaeth o'r protocolau, yn ogystal â chyfle i arsyl wi ar ymgynghorwyr sy'n delio â'r mathau hyn o bryderon. |

Mae'r adran ganlynol yn gofyn i chi ateb cwestiynau am y staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

Nifer y swyddi a throsiant staff

| | |
|---|---|
| Cyfanswm nifer y swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn yn y gwasanaeth (ar 31 Mawrth) | 36 |

Mae'r adran ganlynol yn gofyn i chi ateb cwestiynau am bob math o staff gan gynnwys gwybodaeth am nifer y swyddi sydd wedi'u llenwi ac sy'n wag, yr hyfforddiant a gafwyd, y trefniadau cytundebol sydd ar waith a chymwysterau'r staff hynny.

Dylai'r wybodaeth a gofnodir ymwneud â'r cyfnod y mae'r aelod o staff wedi bod yn gweithio i'r darparwr yn unig.

Y Math o Staff

Rheolwr y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 1 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 0 |
| Iechyd a Diogelwch | 1 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 1 |
| Codi a Chario | 0 |
| Diogelu | 1 |
| Dementia | 1 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 0 |
| Hylendid Bwyd | 1 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 1 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 0 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 1 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 0 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 1 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 0 |

## Dirprwy reolwr y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 2 |
| Nifer y swyddi gwag | 0 |

Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 1 |
| Iechyd a Diogelwch | 2 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 2 |
| Codi a Chario | 2 |
| Diogelu | 2 |
| Dementia | 2 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 2 |
| Hylendid Bwyd | 2 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | |

Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 1 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 1 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 2 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 0 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 1 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel Rheolwr Gwasanaeth | 1 |

| Aelodau eraill o staff goruchwylio | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Na |

| Uwch-weithwyr gofal cymdeithasol sy'n darparu gofal uniongyrchol | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Na |

| Gweithwyr gofal cymdeithasol eraill sy'n darparu gofal uniongyrchol | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys rolau o'r math hwn? | Ie |

Pwysig: Mae'r holl gwestiynau yn yr adran hon yn ymwneud yn benodol â'r math hwn o rôl yn unig. Oni nodir fel arall, dylai'r wybodaeth a gaiff ei hychwanegu fod yn berthnasol i'r sefyllfa ar 31 Mawrth o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf.

### Swyddi sydd wedi eu llenwi a swyddi gwag

| | |
|---|---|
| Nifer y staff cyflogedig | 29 |
| Nifer y swyddi gwag | 3 |

### Manylion hyfforddiant perthnasol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Nodwch nifer y staff a gwblhaodd yr hyfforddiant perthnasol. Dim ond sampl o'r hyfforddiant y gallai'r grŵp o staff fod wedi'i gwblhau a geir yn y rhestr o gategorïau hyfforddiant a ddarperir.

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant Sefydlu | 12 |
| Iechyd a Diogelwch | 29 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol | 29 |
| Codi a Chario | 12 |
| Diogelu | 29 |
| Dementia | 12 |
| Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol | 12 |
| Hylendid Bwyd | 12 |
| Amlinellwch unrhyw hyfforddiant ychwanegol a gyflawnwyd sy'n berthnasol i'r rôl hon nad yw wedi'i amlinellu uchod. | |

### Trefniadau Cytundebol

| | |
|---|---|
| Nifer y staff parhaol | 7 |
| Nifer y staff ar gontract cyfnod penodol | 22 |
| Nifer y gwirfoddolwyr | 0 |
| Nifer y staff Banc/Asiantaeth | 0 |
| Nifer y staff ar gontract oriau heb eu gwarantu (dim oriau) | 0 |

### Amlinellwch isod nifer y staff ar gontract parhaol a chyfnod penodol yn ôl yr oriau a gaiff eu gweithio bob wythnos.

| | |
|---|---|
| Nifer y staff llawn amser (35 awr neu fwy yr wythnos) | 28 |
| Nifer y staff rhan amser (17-34 awr yr wythnos) | 1 |
| Nifer y staff rhan amser (16 awr neu lai yr wythnos) | 0 |

### Cymwysterau Staff

| | |
|---|---|
| Nifer y staff sy'n meddu ar y cymhwyster gofynnol i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru fel gweithiwr gofal cymdeithasol | 18 |
| Nifer y staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofynnol/a argymhellir | 10 |

| Mathau eraill o staff | |
|---|---|
| A yw strwythur eich gwasanaeth yn cynnwys unrhyw fathau o rolau ychwanegol ar wahân i'r rheini a gaiff eu rhestru eisoes? | Na |